# Diweddaraf Staff
# Staff Update

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Defnyddio ffôn, llyw lloeren neu ddyfais arall wrth yrru.

Mae dal a defnyddio ffôn, llyw lloeren, tabled, neu unrhyw ddyfais a all anfon neu dderbyn data, wrth yrru neu reidio beic modur yn anghyfreithlon.

Mae hyn yn golygu na ddylech ddefnyddio dyfais yn eich llaw am unrhyw reswm, p'un ai eich bod ar-lein neu all-lein.

Er enghraifft, rhaid ichi beidio ag anfon neges destun, gwneud galwadau, tynnu lluniau, gwneud fideos, neu bori'r we.

Mae'r gyfraith yn dal i fod yn berthnasol ichi os ydych:

- wedi stopio wrth oleuadau traffig
- yn aros mewn traffig
- yn goruchwylio gyrrwr sy'n dysgu
- yn gyrru car sy'n diffodd yr injan pan fyddwch yn rhoi'r gorau i symud
- yn dal ac yn defnyddio dyfais sydd all-lein neu yn y modd hedfan

## Eithriadau

Gallwch ddefnyddio dyfais wedi'i dal yn eich llaw os:

- oes angen ichi ffonio 999 neu 112 mewn argyfwng ac mae'n anniogel neu'n anymarferol i stopio
- ydych chi wedi parcio'n ddiogel
- ydych yn gwneud taliad digyswllt mewn cerbyd nad yw'n symud, er enghraifft mewn bwytai archebu o'r car
- ydych yn defnyddio'r ddyfais i barcio'ch cerbyd o bell

## Defnyddio dyfeisiau llawrydd

Gallwch ddefnyddio dyfeisiau llawrydd, cyn belled nad ydych yn eu dal ar unrhyw adeg wrth eu defnyddio. Mae mynediad llawrydd yn golygu defnyddio'r canlynol, er enghraifft:

- clustffonau *Bluetooth*
- gorchymyn llais
- daliwr neu fat ar y dangosfwrdd
- daliwr ar y sgrin wynt
- llyw lloeren wedi'i fewnosod

Ni ddylai'r ddyfais atal eich golwg o'r ffordd a'r traffig sydd o'ch blaen.

## Cadw rheolaeth lawn ar eich cerbyd

Rhaid ichi gadw rheolaeth lawn ar eich cerbyd bob amser. Gall yr heddlu eich stopio os ydynt yn credu nad ydych mewn rheolaeth oherwydd bod rhywbeth yn tynnu eich sylw a gallwch gael eich erlyn.

## Cosbau

Gallwch gael 6 phwynt cosb a dirwy o £200 os ydych yn dal ac yn defnyddio ffôn, llyw lloeren, tabled, neu unrhyw ddyfais a all anfon a derbyn data wrth yrru neu reidio beic modur.

Byddwch hefyd yn colli'ch trwydded os ydych wedi pasio'ch prawf gyrru yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.

Gallwch gael 3 phwynt cosb os nad ydych yn gallu gweld yn llawn y ffordd a'r traffig o'ch blaen neu os nad oes gennych reolaeth briodol ar y cerbyd.

Gallwch hefyd fynd o flaen llys lle gall y canlynol ddigwydd:

- cael eich gwahardd rhag gyrru neu reidio
- cael uchafswm dirwy o £1,000 (£2,500 os ydych yn gyrru lori neu fws)